Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nyth

Cydnabod ein partneriaeth

Cydnabod ein partneriaeth

Bydd cydnabod ein partneriaeth yn ein helpu i leihau nifer y cartrefi yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd cadw eu cartrefi yn gynnes ac ymdopi â biliau ynni uchel.

Bydd gwell ymwybyddiaeth o Nyth yn ein helpu i gyrraedd y rhai sydd angen y cymorth y mae Nyth yn ei gynnig fwyaf. Mae hefyd yn bwysig y caiff Llywodraeth Cymru ei gydnabod yn gywir ac yn briodol.

Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cydnabod ein partneriaeth yn briodol ac mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eich gwaith, ac i'ch helpu i gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.

Sôn Amdanom

Pan fyddwch yn sôn am Nyth mewn unrhyw gyhoeddiad am y tro cyntaf, dylid geirio hyn fel a ganlyn:

Cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru

Gellir defnyddio Nyth ar gyfer unrhyw gyfeiriadau dilynol.

Y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus

Os hoffech gael dyfyniad gan Nyth er mwyn cefnogi eich datganiad i'r wasg, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl; x wythnos cyn cyhoeddi yn ddelfrydol. Er na allwn warantu y byddwn yn gallu darparu dyfyniad ar eich cyfer, byddwn yn ceisio gwneud hynny os yw'n bosibl.

Cyfryngau cymdeithasol

Mae Nyth yn hyrwyddo ac yn rhannu newyddion a straeon am ein gwaith ar Twitter.

Wrth sôn am Nyth, defnyddiwch gyfrif @NestWales ar gyfer negeseuon Saesneg a @NythCymru ar gyfer negeseuon Cymraeg.

Defnyddio ein logo

Os gallwch gynnwys ein logo ar eich gwefan neu mewn unrhyw gyhoeddiad, dilynwch ein canllawiau isod.

Prif Logo - Lliw Llawn

Defnyddiwch y logo lliw llawn lle bynnag y bo'n bosibl

Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Prif Logo - Gwyn

I'w ddefnyddio ar liwiau/lluniau tywyll

Cydberthynas y logo â logo Llywodraeth Cymru

Dylai logo Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ymddangos i'r dde o logo Nyth bob amser.

Mae copi o'n logo ar gael ar ein gwefan. Gallwch gysylltu â'r tîm marchnata i dderbyn cyngor pellach ar sut i ddefnyddio'r logo ac i anfon unrhyw broflenni o wefan neu gyhoeddiad yr hoffech iddynt gael eu gwirio.